

Hysbysiad Preifatrwydd CGGC

CGGC yw 'Rheolydd' y data personol rydych chi'n eu rhoi i ni. Dim ond data personol sylfaenol ydym yn eu casglu amdanoch chi, heb gynnwys unrhyw fathau arbennig o wybodaeth na gwybodaeth seiliedig ar leoliad. Fodd bynnag, mae'r data'n cynnwys enw, cyfeiriad, cyfeiriad e-bost a rhif ffôn.

Pam mae arnom angen eich data

Rhaid i ni gael eich data personol sylfaenol er mwyn gwneud y canlynol:

- * Sicrhau bod y cynnwys o'n safle'n cael ei gyflwyno yn y ffordd fwyaf effeithiol i chi ac i'ch cyfrifiadur.
- * Darparu gwybodaeth, cynhyrchion neu wasanaethau i chi yn unol â'ch cais, neu fel sydd o ddiddordeb i chi yn ein barn ni, os ydych chi wedi rhoi eich caniatâd i ni gysylltu â chi at ddibenion o'r fath.
- * Cyflawni ein rhwymedigaeth sy'n codi o unrhyw gontractau a lunnir rhyngoch chi a ni.
- * Rhoi gwybod i chi am newidiadau i'n gwasanaeth.

Nid ydym yn datgelu gwybodaeth am unigolion y gellir eu hadnabod i drydydd parti ond efallai y byddwn yn rhoi gwybodaeth gyfun am ein defnyddwyr iddynt.

Ni fyddwn yn casglu unrhyw ddata personol gennych chi nad oes arnom eu hangen er mwyn darparu a goruchwylio'r gwasanaeth hwn i chi.

Beth rydym yn ei wneud gyda'ch data

Mae'r holl ddata personol rydym yn eu prosesu'n cael eu prosesu gan ein staff yn y DU ond at ddibenion cynnal a chadw TG, mae'r wybodaeth hon wedi'i lleoli ar weinyddion yn yr Undeb Ewropeaidd.

Mae gennym drefn Diogelu Data yn ei lle i oruchwylio prosesu effeithiol a diogel ar eich data personol.

Gwaetha'r modd, nid yw trosglwyddo gwybodaeth ar y rhyngwrwyd yn gwbl ddiogel. Er ein bod yn gwneud ein gorau i warchod eich data personol, ni allwn warantu diogelwch eich data a drosglwyddir i'n safle ni; chi sy'n atebol am risg unrhyw drosglwyddo. Ar ôl i ni dderbyn eich gwybodaeth, byddwn yn defnyddio gweithdrefnau a nodweddion diogelwch llym i geisio atal mynediad heb awdurdod.

Am faint rydym yn cadw eich data

Bydd eich gwybodaeth rydym yn ei defnyddio at ddibenion marchnata'n cael ei chadw gennym ni nes eich bod yn rhoi gwybod i ni nad ydych yn dymuno derbyn y wybodaeth hon mwyach. Bydd unrhyw wybodaeth a roddir ar ffurflenni archebu'n cael ei dinistrio 24 mis ar ôl cynnal yr hyfforddiant.

Beth fyddem yn hoffi ei wneud hefyd gyda'ch data

Fodd bynnag, hoffem ddefnyddio eich enw a'ch cyfeiriad e-bost i roi gwybod i chi am ein cyfleoedd hyfforddi yn y dyfodol a newyddion arall o'r Trydydd Sector. Nid yw'r wybodaeth hon yn cael ei rhannu ag unrhyw drydydd parti a chewch ddileu eich tanysgrifiad ar unrhyw adeg, dros y ffôn, ar e-

bost neu ar ein gwefan ni. Anfonwch e-bost i mail@cvsc.org.uk os yw hyn yn rhywbeth y byddech yn hoffi cofrestru ar ei gyfer.

Beth yw eich hawliau

Mae gennych hawl i ofyn i ni beidio â phrosesu eich data personol at ddibenion marchnata. Fel rheol byddwn yn rhoi gwybod i chi (cyn casglu eich data) os ydym yn bwriadu defnyddio eich data at ddibenion o'r fath. Gallwch ymarfer yr hawl hon ar unrhyw adeg drwy gysylltu â ni ar mail@cvsc.org.uk

Os ydych chi'n credu ar unrhyw adeg bod y wybodaeth rydym yn ei phrosesu amdanoch yn anghywir, gallwch wneud cais am weld y wybodaeth hon a chael ei chywiro neu ei dileu. Os ydych yn dymuno mynegi cwyn am sut rydym wedi trin eich data personol, gallwch gysylltu â ni i ofyn am gynnal ymchwiliad i'r mater drwy gysylltu â mail@cvsc.org.uk

Os nad ydych yn fodlon gyda'n hymateb neu os ydych yn credu nad ydym yn prosesu eich data personol yn unol â'r gyfraith, gallwch anfon cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth <https://ico.org.uk/>